The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | **Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr** |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 17 Mawrth 2020 |
| **Cyfarfod gydag** | Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited |
| **Lleoliad** | Telecon |
| **Amcanion y cyfarfod** | Trafod amseriad y cais am Farn Gwmpasu |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r trafodaethau yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gellid gohirio cyhoeddi'r nodyn o'r cyfarfod am hyd at chwe mis, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno (pe byddai ymgeisydd yn gofyn am hynny am resymau masnachol).

### *Amseru cais am farn gwmpasu ar gyfer datganiad amgylcheddol*

Mae'r Ymgeisydd yn dymuno gwneud cais am farn gwmpasu i lywio'r asesiad o'r effaith amgylcheddol (AEA). Pan ddaw cais am farn gwmpasu i law, mae'n ofynnol i'r Arolygiaeth ymgynghori â'r cyrff ymgynghori i geisio eu barn. Mae'r Rheoliadau AEA yn mynnu bod cyrff ymgynghori yn ymateb o fewn 28 niwrnod. Dywedodd yr Arolygiaeth fod y pryderon a'r ymatebion presennol mewn perthynas â COVID-19 yn golygu y gallai fod yn anodd i gyrff ymgynghori ymateb o fewn 28 niwrnod, os gofynnir iddynt wneud hynny. Dywedodd yr Arolygiaeth, o ystyried y prif raddfeydd amser ar gyfer rhoi Barn Gwmpasu (42 diwrnod), nad yw'n ymestyn y cyfnod 28 niwrnod hwn. Esboniodd yr Ymgeisydd ei bryderon ynglŷn â'r effaith y gallai unrhyw oedi wrth wneud y cais cwmpasu ei chael ar y raddfa amser ar gyfer cyflawni'r prosiect. Er mwyn ymateb i'r materion hyn, trafododd yr Ymgeisydd a'r Arolygiaeth opsiynau gan gynnwys:

1. Bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno ei gais am farn gwmpasu fel y cynlluniwyd yn wreiddiol a sut y gallai hyn gael ei drin a'i ddehongli ar yr adeg hon.
2. Bod yr Ymgeisydd yn gohirio ei gais am farn gwmpasu am sawl wythnos.

3. Bod yr Ymgeisydd yn symud ymlaen i gyflawni gofynion Rheoliad 8, gan roi gwybod i'r Arolygiaeth am ei fwriad i ddarparu datganiad amgylcheddol. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r Arolygiaeth gynnal ei hysbysiadau ei hun a rhoi manylion cyswllt y cyrff a hysbyswyd i'r Ymgeisydd.

Trafodwyd Opsiwn 3 yn fanylach, yn enwedig y cyfle y mae'n ei roi i'r Ymgeisydd ymgysylltu'n gynharach â'r cyrff ymgynghori tebygol cyn unrhyw gais ffurfiol am farn gwmpasu. Roedd yr Ymgeisydd yn fodlon ar yr opsiynau a drafodwyd a bydd yn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o fwrw ymlaen â'i brosiect. Gofynnodd yr Arolygiaeth i'r Ymgeisydd barhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Arolygiaeth a'r holl gyrff ymgynghori, pa opsiwn/ymagwedd bynnag a ddewisir.

## *Penderfyniadau penodol/ gwaith dilynol sy'n angenrheidiol*

Bydd yr Ymgeisydd yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael iddo ac yn rhoi gwybod i'r Arolygiaeth sut y mae'n dymuno gweithredu.

**Atodiad A**

## Mynychwyr y cyfarfod

| **Sefydliad** | **Rôl** |
|---|---|
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio | Cynghorydd AEA a Hawliau Tir |
| Innogy | Uwch Reolwr Caniatadau |
| Innogy | Rheolwr Caniatadau ar y Môr |